# Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

## Cofnodion o'r cyfarfod Panel a gynhaliwyd ar 7fed Mawrth 2014
## Ystafell Cynhadledd, Llangefni

**Presennol:** **Cyngor Gwynedd**
Cyng John Brynmor Hughes
Cyng John Pughe Roberts
Cyng Owain Williams
Cyng Gethin Glyn Williams
Cyng John Wyn Williams

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng Lewis Davies
Cyng Kenneth Hughes
Cyng Victor Hughes

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Gareth Jones | Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio & Amgylcheddol (CG) |
| Nia Davies | UPCC – Rheolwr |
| Bob Thomas | UPCC - Arweinydd Tîm |
| Rhodri Owen | UPCC – Uwch Swyddog Cynllunio |
| Eirian Harris | UPCC - Cynorthwyydd Cynllunio Cefnogol |

**Ymddiheuriadau:** Cyng Ann Griffith (CSYM)
Cyng Gwen Griffith (CG)
Cyng J Arwel Roberts (CSYM)
Cyng Dafydd Meurig (CG)
Jim Woodcock - Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd (CSYM)

**1) YMDDIHEURIADAU**
Fel y nodwyd uchod.

**2) DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

**3) MATERION BRYS**
Dim materion brys.

**4) COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Panel 24 Ionawr 2014 fel rhai cywir.

**5) ADOLYGIAD O BOLISÏAU STRATEGOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD:-**
Cyflwynwyd adroddiadau gan Nia Davies a Bob Thomas ynglŷn â'r Polisïau isod

**ATODIAD A:**
**POLISI STRATEGOL 1 – DATBLYGIAD CYNALIADWY**
Derbyniwyd sylwadau gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu newid geirfa i adlewyrchu rhagdybiaeth genedlaethol o blaid datblygiad cynaliadwy. Sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu i newid trefn y rhestr meini prawf i ddangos perthynas rhwng meini prawf newid hinsawdd a'r ansawdd amgylcheddol. Cytunwyd gyda'r awgrymiadau hyn a'u gweithredu.

Pwyntiau a godwyd:
- Maen prawf 4 angen y gair 'celfyddydau' yn y fersiwn Cymraeg
- Newid maen prawf 14 – 'Effaith Cydraddoldeb'
- Sut fyddai datblygiad cynaliadwy'n edrych fel yn lleol?
- Pwysigrwydd cadw cymeriad yr ardal, yn arbennig ardaloedd gwledig, wrth ystyried beth sy'n gynaliadwy'n lleol
- Angen cadw'r cymal 'cymdeithasol' mewn cof wrth ddehongli datblygiad cynaliadwy, - cyfeiriwyd at y cyfanswm tai mae'r Hoff Strategaeth yn ei hyrwyddo yn y cyd-destun yma

Ymatebion:
- Mae datblygu polisïau sy'n ymateb i heriau newid hinsawdd, e.e. delio efo datblygiadau sydd mewn ardaloedd sy'n destun risg llifogydd neu erydiad yr arfordir yn fater lleol
- Mae hyrwyddo unedau tai fforddiadwy ac edrych i mewn i gael polisi tai marchnad leol yn ddulliau o sicrhau datblygiad cynaliadwy lleol.
- Mae meini prawf 10 & 11 yn rhoi'r bachau i greu polisïau manwl sy'n hyrwyddo'r math o ddatblygiad mae'r Panel yn awyddus i'w weld
- Bydd y Panel yn cael cyfleoedd yn ystod y misoedd nesaf i ystyried y sylwadau a dderbyniwyd am y lefel twf tai a'r dystiolaeth ddiweddaraf am y farchnad tai lleol.

**ATODIAD B:**
**POLISI STRATEGOL 2 – LLINIARU AC ADDASU I EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD**

Derbyniwyd sylwadau gan Lywodraeth Cymru ond teimlwyd nad oedd sail ddigonol yn yr achos yma i dderbyn y sylw, sef cyfuno PS2 gyda PS1. Credir bod effeithiau newid hinsawdd yn fater lleol sy'n haeddu polisi ar wahân. Roedd sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu y dylid ychwanegu geirfa newydd ym maen prawf 5.

Pwyntiau a godwyd:

- Gallai pwynt 5 gael ei ddehongli mewn modd a fyddai'n gallu difetha nifer o fusnesau a fyddai'n golygu dirywiad mewn cymunedau.
- Mynegwyd pryder nad oedd strategaeth i ddelio gyda goblygiadau erydiad arfordirol neu ragor o lifogydd
- Mae ardaloedd arfordirol yn bwysig.
- Angen cael cydbwysedd, - mae tystiolaeth yn dangos yn glir y newidiadau hinsawdd.

Ymatebion:

- Cytuno i ail-edrych ar eiriad maen prawf 5 i geisio sicrhau na fyddai'n creu malltod ("blight") heb fod angen.
- Mae bwriad i adnabod ardaloedd ar sail y wybodaeth yn y Cynllun Rheoli Arfordir lle byddai polisïau penodol yn weithredol. Bydd y polisïau yma'n rhoi arweiniad am sut i ddelio a hyrwyddo datblygiadau, os ydy'n briodol gwneud hynny.

**ATODIAD C:**
**POLISI STRATEGOL 5 – ISADEILEDD A CHYFRANIADAU GAN DDATBLYGWYR**

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi'r angen i sicrhau fod isadeiledd mewn lle i gefnogi datblygiadau. Nodwyd fod papur testun yn cael ei baratoi a fydd yn cydnabod cynlluniau darparwyr prifion cyhoeddus a gwasanaethau. Mae'r Ardoll Isadeiledd Cymunedol yn fecanwaith cynllunio a all hyrwyddo darpariaeth yr isadeiledd sy'n strategol i'r ardal, os dangosir ei bod hi'n hyfyw i wneud hynny.

Pwyntiau a godwyd:

- A fuasai'r polisi yma yn galluogi datblygu mynwentydd ayb tu allan i'r ffiniau datblygu?
- Fel rhan o'r dull Ardoll Isadeiledd Cymunedol mae angen sicrhau fod lonydd a ffyrdd yn addas fel rhan o raglen isadeiledd.

Ymatebion:

- Mae'r polisi yma yn rhoi'r bachyn priodol i sicrhau y byddai sylw priodol yn cael ei roi adeg llunio cais cynllunio i'r angen am isadeiledd priodol cyn i ddatblygiad allu cael ei wireddu
- Bydd polisïau eraill yn rhoi arweiniad ynglŷn a lleoliad yr isadeiledd a fyddai ei angen i gyfarch goblygiadau'r datblygiad.

**ATODIAD CH:**
**POLISI STRATEGOL 16 – TECHNOLEG ADNEWYDDADWY**
Mae'r Llywodraeth yn atgoffa'r Cyngor i sicrhau bod y polisi'n cael ei eirio mewn modd sy'n galluogi'r sawl sy'n gwneud penderfyniad i wneud hynny. Cytunwyd â hyn, ac felly awgrymir newidiadau i'r polisi. Mae'r adroddiad yn argymell man newidiadau eraill yn sgil asesiad o sylwadau eraill a gafodd eu cyflwyno.

Pwyntiau a godwyd:

- Holwyd os fydd polisi ar wahân yn cael ei greu ar gyfer Ynni Gwynt.
- Awgrymir y dylai'r polisi Ynni Gwynt fod yr un peth o fewn pob un AHNE ar draws Cymru gyfan.
- Beth yw diffiniad 'cronnol' ym mhwynt 3) - ydi mwy nag un tyrbin yn cael ei gysidro'n gronnol?
- Angen ystyried effaith tyrbinau gwynt ar gymunedau; nid yw cymunedau'n gallu elwa yn ariannol o dyrbinau ond maent yn gallu colli incwm yn sgil dirywiad yn y sector twristiaeth. .
- pwynt 2) credir fod y gair 'amcanion' sydd wedi ei groesi allan yn well na'r gair newydd, sef 'cyfanrwydd'.
- Awgrymwyd y gellir canolbwyntio ar ynni dwr. Mae nifer o geisiadau dŵr yn cael eu cyflwyno a'u caniatáu yn ardal y Parc.

Ymatebion:

- Esboniwyd y byddai'r Cynllun Adnau'n delio gyda'r gwahanol fathau o ddatblygiadau ynni adnewyddol
- Esboniwyd bod rhaid i bob Cynllun roi arweiniad am ddatblygiadau yn yr AHNE. Mae angen i gydbwyllgorau AHNE drafod y mater gyda'i gilydd os am ddatblygu polisi cenedlaethol am y mater.
- Byddai polisi manwl yn rhoi arweiniad ynglyn a'r angen i ystyried effaith cronnol datblygiadau
- Pwynt 2) – esboniwyd mai Cyfoeth Naturiol Cymru ddaru awgrymu'r newid er mwyn adlewyrchu gofynion y Rheoliadau perthnasol.

**ATODIAD D:**
**POLISI STRATEGOL 19 – IAITH A'R DIWYLLIANT CYMREIG**
Derbyniwyd sylwadau cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ond teimlwyd oherwydd bod ardal y cynllun yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg mae angen meini prawf uniongyrchol ar gyfer effaith datblygiadau ar yr iaith, felly dim newid yn y polisi.

Pwyntiau a godwyd:

- Mynegwyd mai cefnogaeth i'r economi sydd angen i achub yr iaith Gymraeg. Nodwyd nad ydy rheolau Ewropeaidd yn gymorth i'r sefyllfa.
- Oherwydd bod yr economi yn wan mae pobl ifanc yn gadael ein hardaloedd.
- Mynegwyd cefnogaeth i Wylfa ond mae angen edrych ar yr effeithiau gan gynnwys yr effaith ar yr iaith.

- Nodwyd bod amgen cefnogi busnesau bychan i hybu'r economi a chreu diwylliant Cymreig.
- Holwyd am y posibilrwydd o greu polisi i gefnogi a hybu busnesau bychan yng nghefn gwlad.
- Credir nad ydy NCT20 ddim ddigon cadarn i gadw'r iaith yn fyw.
- Angen edrych ar effaith stadau mawr o dai yn y gorffennol, gan gadw golwg ar y posibilrwydd o hyrwyddo datblygiadau bychan i osgoi gwrthdaro.
- Mynegwyd nad ydy datblygu tai ddim yn achub nac yn lladd yr iaith Gymraeg.

Ymatebion:

- Cytuno bod angen sefydlu cyfres o bolisïau sy'n hyrwyddo darpariaeth o isadeiledd yn ardaloedd gwledig er mwyn creu rhagor o ddatblygiadau.

**6. POLISI TAI MARCHNAD LEOL – DIWEDDARIAD AM DDATBLYGIAD Y SAIL TYSTIOLAETH**

Cyflwynwyd adroddiad gan Rhodri Owen yn diweddaru'r gwaith ar dystiolaeth i greu polisi tai marchnad leol. Pwyslais mawr yn cael ei roi i sicrhau fod ein tystiolaeth yn gadarn ac yn cyfiawnhau creu polisi newydd. Esboniwyd fod Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi'r cyfle i ystyried cyflwyno polisi o'r fath, ond ddim i wahaniaethu yn ieithyddol.

Pwyntiau a godwyd:

- Cafwyd cyflwyniad ar Gynllun Cernyw a oedd yn ddiddorol. Cafwyd cwmnïau benthyca lleol yn darparu morgeisi ar gyfer y math yma o dai.
- Cyfeiriwyd at y problemau mae pobl ifanc yn ei gael i gael morgeisi. Nodwyd bod y Cynghorau wedi gwneud llawer o waith gyda chwmnïau morgeisi.
- Codwyd y pwynt mai mewn rhai ardaloedd nid oes tir ar gael i ddatblygu ac mae'r aneddleoedd agosaf yn brin o adnoddau i'w cynnal. Hefyd, fod tir ar gael fel safleoedd mewnlenwi ond nid yw'n bosib cael caniatâd cynllunio.
- Gofynnwyd am eitem arall a oedd yn canolbwyntio ar y casgliadau (y sgôr terfynol i bob ardal) a bod gwybodaeth yn cael ei roi am beth fyddai hynny'n olygu i aneddleoedd unigol .

Ymatebion:

- Cytunwyd i gyflwyno'r wybodaeth a ofynnwyd amdano mewn cyfarfod yn fuan.

**7. RHAGLEN CYFATHREBU**

Cyflwynwyd adroddiad ar lafar gan Nia Davies yn amlinellu digwyddiadau y yn y dyfodol agos.

- Cynnal seminarau ar faterion tai.
- Seminar hefyd i drafod safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.
- Trafodaeth ar y ffigwr tŵf a sut mae'r Cynllun yn hyrwyddo'r lefel a lleoliad y tai.